orboethi.

Mae'n rhaid i addasyddion teithio rhyngwladol a ddefnyddir yn y llety fod â ffiws 13amp ac wedi'u gwneud yn Ewrop, gyda nod barcud y CE yn ddelfrydol. Mae'r addasyddion rhyngwladol priodol ar gael o Swyddfa Neuaddau Ffriddoedd a Swyddfa Neuaddai Santes Fair.

Mae Myfyrwyr yn cytuno y gall y Brifysgol wirio cyfarpar trydanol Myfyrwyr wrth archwilio ystafelloedd. Os yw'r Brifysgol yn credu'n rhesymol bod unrhyw gyfarpar yn anniogel, rhaid i'r Myfyriwr ddarparu'r fath dystiolaeth ag y bydd ar y Brifysgol ei hangen yn rhesymol sy'n dangos fod yr eitem yn ddiogel i'w defnyddio mewn llety myfyrwyr neu adael i'r Brifysgol ei harchwilio. Gall y Brifysgol gymryd cyfarpar trydanol anniogel neu sydd heb ei brofi, ond bydd yn rhoi

*Arolygiad – disgwyliadau a manylion pellach*

**Cytuno i ganiatáu i’r Brifysgol ar adegau rhesymol ddod i’r Llety at ddibenion archwilio, glanhau, gwneud gwaith cynnal a chadw, trwsio neu gynnal ymweliadau**

Mi fydd y Brifysgol fel rheol yn archwilio ystafelloedd unwaith bob semester. Bydd y Brifysgol yn rhoi rhybudd rhesymol ymlaen llaw i Fyfyrwyr mewn e-bost pan fwriedir archwilio ystafelloedd. Dylai Myfyrwyr fod yn ymwybodol ei bod yn annhebygol y bydd yn ymarferol rhoi rhybudd pan mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw neu drwsio.

arwain at droi'r Myfyriwr allan drwy ddilyn Polisi https://www.bangor.ac.uk/cy/llety/handfodol

Rhaid i Fyfyrwyr beidio â dosbarthu taflenni na hysbysiadau ar ran unrhyw sefydliad, masnachol neu fel arall, yn unrhyw ran o'r campws preswyl. Dylai Myfyrwyr fod yn ofalus hefyd i beidio â gadael i unrhyw un ddod i mewn i'r Adeilad gyda'r bwriad o ddosbarthu taflenni. Bydd gan unrhyw un sydd â rheswm dilys dros ddod i mewn i'r Adeilad eisoes â modd o agor y drysau. Ni ddylai Myfyrwyr fyth ganiatáu i neb eu dilyn i mewn trwy'r drysau am unrhyw reswm. Os creda Myfyriwr fod rhywun wedi cael mynediad heb awdurdod i un o adeiladau'r Brifysgol, dylai roi gwybod i'r Swyddfa Neuaddau neu i wasanaeth diogelwch 24 awr y Brifysgol cyn gynted â phosibl.

*Gwesteion*

llety ac y byddent efallai eisiau aros dros nos. Nod y Brifysgol yw creu a chynnal lle byw cytûn i bob preswylydd a bydd cael cydweithrediad pob preswylydd yn gymorth i ni sicrhau hyn. Felly,

Myfyriwr am uchafswm o ddwy noson yn olynol mewn cyfnod o 7 diwrnod. RHAID i breswylwyr roi gwybod i'w cyd-breswylwyr/cyd-letywyr os ydynt yn bwriadu gwahodd rhywun i aros dros nos ac os bydd cyd-breswylydd yn gwrthwynebu dylid ystyried eu teimladau. Dylai preswylwyr fod yn arbennig o sensitif os ydynt ar goridorau i ferched yn unig neu goridorau i ddynion yn unig wrth ystyried gwahodd gwestai o'r rhyw arall i aros dros nos. Dylai preswylwyr gofrestru enwau eu gwesteion trwy fynd i www.bangor.ac.uk/myroom a llenwi'r ffurflen ar-lein